



Ein cyf/Our ref MA-CG-0161-20

David Rees AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
David.Rees@assembly.wales

23 Ionawr 2020

Annwyl David,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am ei adroddiad 'Fframweithiau polisi cyffredin: Gwaith craffu gan y Cynulliad'. Bwriedir i Fframweithiau Cyffredin alluogi'r pedair llywodraeth yn y DU i wneud penderfyniadau ar y cyd a llunio polisiau mewn modd tryloyw a chydweithredol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Fel y soniais yn fy llythyrau dyddiedig 1 Mawrth a 23 Hydref 2019, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl hanfodol y Senedd, ynghyd â'r tair deddfwrfa arall yn y DU, o ran craffu ar fframweithiau'r dyfodol, yn ogystal â'u datblygu, eu gweithredu a'u goruchwylio. Yn yr un modd, mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod yn parhau'n llwyr ymroddedig i fod yn agored mewn perthynas â llunio Fframweithiau Cyffredin, ac i graffu arnynt.

Hoffem gynnal yr ysbryd adeiladol yr ydym wedi bod yn cydweithio ynddo, a hefyd ein hymrwymiad i dryloywder a phwysigrwydd craffu. Yn unol â'r pwyntiau uchod ynghylch natur y rhaglen Fframweithiau Cyffredin, yn yr ymateb hwn rwyf wedi ymateb dros dro i sawl un o argymhellion y Pwyllgor. Mae dau reswm dros hyn:

1. Dyma gasgliad cymhleth a heriol iawn o amcanion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu cymhwysedd datganoledig drwy'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin fel y gellir datblygu polisiau i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Rwyf hefyd yn cydnabod yr effaith a'r cysylltiad rhwng ein polisiau ninnau a pholisiau llywodraethau eraill y DU yn y meysydd hyn, yn ogystal â'r cysylltiad â chytundebau masnach ryngwladol yn y dyfodol (gan gynnwys â'r UE). Mantais – ac yn wir prif her – y rhaglen Fframweithiau yw bod angen cytundeb rhwng y pedair llywodraeth yn y DU. Mae datblygu Fframweithiau Cyffredin ar lefel y DU i ddiwallu anghenion amrywiol Cymru wrth iddynt esblygu yn her gyson ac amlweddog. O ran meysydd sydd dan sylw ar hyn o bryd mewn trafodaethau a phrosesau datblygu polisi

rhynglywodraethol, rwyf wedi ymrwymo i roi diweddariad erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

2. Mae'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin yn faes gwaith annibynnol ac ynddo feysydd polisi penodol a nodwyd yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r UE ac o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol a ddaeth gyda Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gall arferion da o'r rhaglen lywio gwaith rhynglywodraethol arall, ac maent yn cael eu rhannu'n rheolaidd â'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol sydd ar wahân ond yn gysylltiedig, er enghraifft. Ond mae cwmpas y rhaglen wedi'i ddiffinio'n benodol. Yn yr ymateb hwn, rwy'n cyfeirio at Fframweithiau Cyffredin fel y'u disgrifiwyd yn y Dadansoddiad o'r rhaglen Fframweithiau a luniwyd gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU ym mis Ebrill 2019 ar y cyd â llywodraethau eraill y DU.

Hoffwn sicrhau fy mod yn ymateb yn glir ynglŷn â'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Pan nad yw'r cais penodol ynghylch Fframweithiau Cyffredin yn glir imi, rwyf wedi gofyn i'r Pwyllgor roi rhagor o wybodaeth am ei gais ynghylch Fframweithiau Cyffredin, i'm galluogi i ymateb yn llawn. Byddaf yn fwy na pharod i ysgrifennu eto at y Pwyllgor.

Cytunaf â llawer o'r egwyddorion sy'n sail i argymhellion y Pwyllgor, ac ni chredaf fod anghytundeb sylfaenol rhyngom ynghylch y cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y rhaglen Fframweithiau. Credaf fod cyfle inni barhau i gydweithio'n agos i lywio datblygiad Fframweithiau Cyffredin, a rhannu gwybodaeth ar y datblygiad hwnnw, a sicrhau craffu a thrafodaeth amserol â deddfwrfeydd wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad hwn, yn ymrwymo i hysbysu'r Cynulliad pan fydd deddfwriaeth yn gysylltiedig â fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan, p'un a yw'r deddfwriaeth honno'n cael ei hystyried gan y Cynulliad ynteu Senedd y DU.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad ar y sail bod y cyfeiriad at 'fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan' yn cyfeirio at y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Cyfeirir at hyn fel 'Fframweithiau Cyffredin'.

Rhaid i'r broses ar gyfer cytuno ar Fframweithiau Cyffredin fod yn gynhwysol a thryloyw. Byddaf yn sicrhau bod y Senedd yn cael gwybod pan fo deddfwriaeth yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r Fframweithiau Cyffredin sy'n cael eu trafod gan lywodraethu'r DU.

Serch hynny, os yw'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at waith rhynglywodraethol cyffredinol, mae Prif Weinidog Cymru yn ystyried y ffordd orau o hwyluso gwaith craffu ar gytundebau rhynglywodraethol a byddai'n croesawu barn y Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried a ddylid diwygio'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i aelod o Lywodraeth Cymru hysbysu'r Cynulliad yn y ffordd a nodir yn ein hargymhelliad cyntaf.

Mater i'w Pwyllgor Busnes ei ystyried yw'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r holl ddeddfwriaeth a basiwyd yn y Pumed Cynulliad i asesu a yw'n ymwneud â maes fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan ai peidio. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gynnal erbyn diwedd mis Chwefror 2020 i sicrhau bod gan y Cynulliad y wybodaeth hon cyn bod y rhan fwyaf o fframweithiau'n barod ar gyfer gwaith craffu.

Ymateb: Cwblhawyd

Nid yw'r un ddeddfwriaeth a basiwyd yn y Pumed Cynulliad yn ymwneud â'r un o'r Fframweithiau Cyffredin.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 4

Os bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn nodi deddfwriaeth sy'n ymwneud ag un o'r meysydd fframwaith sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, dylai:

- *hysbysu'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ysgrifenedig; a*
- *sicrhau bod y deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r fframwaith amlinellol a gyhoeddir yn y pen draw yn nodi'r cysylltiad â'r ddeddfwriaeth hon.*

Ymateb: Nid oes angen cyfeiriadau o'r fath gan nad oes yr un ddeddfwriaeth wedi'i nodi mewn perthynas â'r Fframweithiau Cyffredin.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 5

Os bydd Llywodraeth Cymru yn nodi deddfwriaeth sy'n creu, neu'n darparu pwerau i greu, fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan sydd y tu allan i'r rhestr o feysydd fframwaith a nodwyd gan y rhaglen fframweithiau graidd, dylai ysgrifennu at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:

- *i'w hysbysu; ac*
- *i esbonio sut y bydd y fframwaith yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen fframweithiau neu, o dan amgylchiadau lle nad dyna yw bwriad Llywodraeth Cymru, y rhesymau dros ddatblygu'r maes fframwaith hwn y tu allan i'r rhaglen graidd.*

Ymateb: Derbyn

Mae cwmpas y rhaglen Fframweithiau Cyffredin wedi'i ddiffinio'n glir yn y dogfennau a gyhoeddwyd. Does dim cynlluniau i ymestyn y rhaglen Fframweithiau Cyffredin ar hyn o bryd. Os yw'r sefyllfa hon yn newid, byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod a bod unrhyw gynigion i ymestyn y rhaglen Fframweithiau yn cael eu cyhoeddi.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 6

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda holl Lywodraethau eraill y DU, yn creu un adnodd ar y we sy'n rhestru'r holl fframweithiau, eu hynt, a chysylltiadau â deddfwriaeth ac unrhyw gynhyrchion anneddfwriaethol sy'n gysylltiedig â hwy. Rydym yn argymhell bod y wefan hon yn weithredol erbyn diwedd mis Chwefror 2020 h.y. cyn rhyddhau'r garfan nesaf o fframweithiau ar gyfer gwaith craffu.

Ymateb: Polisi wrthi'n cael ei ddatblygu

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â pholisi sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ac sy'n destun trafodaethau rhynglywodraethol. Byddai angen i bob un o'r pedair cenedl gytuno ar unrhyw broses gyhoeddi a chadw ati. Byddaf yn sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei chyfleu'n glir yn y trafodaethau. Rhoddir diweddariad ar yr argymhelliad hwn cyn y toriad ar 30 Mawrth.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i barhau i gynnal deialog rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Cynulliad, gyda'r bwriad o sicrhau bod gan bwyllgorau y wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn digon o amser i gynllunio ar gyfer craffu ar fframweithiau.

Ymateb: Derbyn

Mae trafod a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Senedd wedi bod yn rhan amlwg o ddatblygiad y Fframweithiau Cyffredin ers peth amser. Rydym wedi ymrwymo i gynnal hyn ac yn wir ei ddwysáu os yw'r broses gyflawni ar gyfer y rhaglen Fframweithiau yn meithrin momentwm yn ystod 2020, fel rydym yn ei rag-weld.

Goblygiadau Ariannol: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol newydd i dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhellion 8 - 10

Argymhelliad 8

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yn rhoi ymrwymiad ysgrifenedig i ddarparu cytundebau amlinellol cryno i bwyllgorau'r Cynulliad ac i osod copi o bob cytundeb amlinellol cryno gerbron y Cynulliad ar yr un pryd. O dan amgylchiadau arferol ni ddylai hyn fod yn llai na chwe wythnos cyn cyhoeddi'r cytundeb fframwaith amlinellol dros dro cysylltiedig.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru osod gerbron y Cynulliad yr holl gytundebau fframwaith amlinellol dros dro, ynghyd ag unrhyw gynhyrchion gweithredu cysylltiedig fel concordatiau.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 10

Ochr yn ochr â phob cytundeb fframwaith dros dro, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi memorandwm esboniadol sy'n cynnwys:

- amcanion polisi'r fframwaith;*
- y dystiolaeth i gefnogi'r angen am fframwaith yn y maes hwn, gan gynnwys y dystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â bob un o egwyddorion y fframwaith;*
- crynodeb o'r broses ymgynghori a'r ymatebion a gafwyd;*
- unrhyw wahaniaethau sydd heb eu datrys o ran y safbwyntiau a fynegwyd gan y partïon eraill sy'n rhan o'r cytundeb a sut y dylid datrys y gwahaniaethau hyn;*
 - trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y broses ar gyfer datrys anghydfodau a'r mecanwaith adolygu;*
 - asesiad o'r effaith ar ddatganoli, h.y. i ba raddau y mae'r cytundeb fframwaith hwn yn cyfyngu ar gymhwysedd gweithredol, ac i ba raddau y mae'r cyfyngiadau a osodir gan y cytundeb fframwaith yn cymharu â'r rhai sy'n bodoli o dan fframweithiau cyfredol yr UE;*
 - asesiad o'r effaith deddfwriaethol h.y. pa deddfwriaeth, sydd wedi'i phasio neu sy'n gysylltiedig, sydd ynghlwm wrth y fframwaith hwn (cyfraith yr UE a ddargedwir, Offerynau Statudol eraill, deddfwriaeth sylfaenol) ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydysyniad deddfwriaethol;*
 - asesiad o'r effaith ariannol; a*
 - chynllun gweithredu ar ôl gwneud cytundeb (i gynnwys proses adolygu gydag amserlenni a dangosyddion diffiniedig i ddangos eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion y fframwaith).*

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Ymateb i Argymhellion 8-10: Polisi wrthi'n cael ei ddatblygu

Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â pholisi sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ac sy'n destun trafodaethau rhynglywodraethol a byddai angen i bob un o'r pedair cenedl gytuno arno a chadw ato. Byddaf yn sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei chyfleu'n glir yn y trafodaethau. Rhoddir diweddariad ar yr argymhellion hyn cyn y toriad ar 30 Mawrth.

Argymhelliad 11

Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried a fyddai'n dymuno ymgymryd â'r rôl a awgrymwyd gennym o ran cydlynu gwaith craffu'r pwyllgorau ar gytundebau fframwaith amlinellol dros dro.

Mater i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried yw'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 12

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad hwn, yn ymrwymo i hwyluso creu'r rôl a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwn ar gyfer y Pwyllgor Busnes, pe bai'r Pwyllgor Busnes am gyflawni'r fath rôl.

Mater i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried yw'r argymhelliad hwn a bydd Llywodraeth Cymru wrth gwrs yn ymateb i unrhyw geisiadau gan y Pwyllgor Busnes.

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad hwn, yn ymrwymo i beidio â chytuno ar gytundeb fframwaith nes bod pwyllgor wedi adrodd ar gytundeb fframwaith amlinellol dros dro neu fod y terfyn amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cyflwyno adroddiad wedi mynd heibio.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Dim ond ar ôl mynd drwy broses graffu y bydd Fframweithiau Cyffredin yn cael eu cwblhau'n derfynol, a bydd adroddiadau'r Pwyllgor yn rhan hanfodol o'r broses honno. Byddaf yn rhannu manylion y broses graffu y mae Gweinidogion y DU, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cytuno arni â'r Pwyllgor cyn gynted â phosib. Bydd hyn yn ein helpu i gyd-ddatblygu math o graffu sy'n briodol i'r materion sy'n codi yng Nghymru yn sgil y rhaglen Fframweithiau.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 14

O dan amgylchiadau lle bydd pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad yn unol â'r terfyn amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad hwn, yn ymrwymo i:

- ymateb yn ysgrifenedig i unrhyw sylwadau a wneir gan bwyllgor y Cynulliad; ac,

▪ yn unol â threfniadau adrodd arferol y pwyllgor, i ganiatáu amser ar gyfer dadl ar adroddiad y pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn cyn bwrw ymlaen i wneud cytundeb fframwaith.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Nid yw pedair gweinyddiaeth y DU wedi penderfynu'n derfynol eto ar fanylion y weithdrefn ar gyfer craffu ar y Fframweithiau Cyffredin. Byddaf yn sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei chyfleu'n glir yn y trafodaethau. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn gynted ag y cytunir ar y gweithdrefnau craffu hyn ac yn ei ddiweddarau dim hwyrach na 30 Mawrth.

Goblygiadau Ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 15

Rydym yn argymhell bod y cytundeb fframwaith terfynol ac unrhyw gynhyrchion gweithredu cysylltiedig yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad ar ôl iddynt gael eu llofnodi.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad ar y sail bod y cyfeiriad at 'fframwaith' yn cyfeirio at y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Bydd cytundebau terfynol Fframweithiau ac unrhyw gynhyrchion gweithredu cysylltiedig yn cael eu gosod gerbron y Senedd yn unol â'r broses safonol ar gyfer cytuno ar Fframweithiau Cyffredin.

Goblygiadau Ariannol: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol newydd i dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 16

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad, o leiaf unwaith y flwyddyn, sy'n rhoi asesiad o'r ffordd y mae pob fframwaith yn gweithio yn unol â'r cynllun gweithredu ar ôl gwneud cytundeb y gofynnwyd amdano yn argymhelliad 10 o'r adroddiad hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad ar y sail bod y cyfeiriad at 'fframwaith' yn cyfeirio at y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Senedd o leiaf unwaith y flwyddyn, yn asesu'r ffordd y mae pob Fframwaith Cyffredin yn gweithio. Bydd hyn yn rhan o'r adroddiad blynyddol a osodir o dan y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Bydd cynnwys yr adroddiad yn destun trafodaethau pellach o fewn y rhaglen Fframweithiau Cyffredin ac â'r pedair deddfwrfa yn y DU, yn unol â'n hymateb i Argymhelliad 10.

Goblygiadau Ariannol: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol newydd i dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 17

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad pryd bynnag:

- *y bydd unrhyw barti sy'n rhan o gytundeb fframwaith yn cynnig newid i fframwaith;*
- *y bydd newid i unrhyw gytundeb fframwaith;*
- *y bydd anghydfod mewn perthynas â gweithredu fframwaith; neu*
- *pan fydd mecanweithiau ffurfiol ar gyfer datrys anghydfod yn cael eu sbarduno.*

Ymateb: Polisi wrthi'n cael ei ddatblygu

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â pholisi sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ac sy'n destun trafodaethau rhynglywodraethol. Byddai angen i bob un o'r pedair cenedl gytuno ar unrhyw broses gyhoeddi a chadw ati. Byddaf yn sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei chyfleu'n glir yn y trafodaethau. Rhoddir diweddariad ar yr argymhelliad hwn cyn y toriad ar 30 Mawrth.

Goblygiadau ariannol: AMHERTHNASOL

Argymhelliad 18

Rydym yn argymhell bod y Llywydd yn ystyried trafod yr adroddiad hwn gyda Fforwm y Cadeiryddion yn y lle cyntaf, a'r cwestiwn p'un a ddylid sefydlu cytundeb rhyngsefydliadol i ategu'r cynnig o ran gwaith craffu a wneir yn yr adroddiad hwn.

Mater i'r Llywydd ei ystyried yw'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 19

Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried y dull o graffu a awgrymwyd gennym (fel y disgrifir yn yr adroddiad hwn) gyda'r bwriad o benderfynu a fyddai'n briodol ym marn y Pwyllgor gofyn am newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i gryfhau'r broses graffu yn y dyfodol.

Mater i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried yw'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 20

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr achos dros addasu'r dull rhynglywodraethol o ran y rhaglen fframweithiau er mwyn sicrhau:

- *ei fod yn cael ei ystyried yng nghyd-destun cyffredinol y gwaith o gytuno ar ddiffiniad a rennir o farchnad fewnol y DU; a*
- *bod y gweithgarwch deddfwriaethol ac anneddfwriaethol y gellid ystyried ei fod yn creu fframwaith ar gyfer y DU gyfan yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen waith hon.*

Ymateb: Polisi wrthi'n cael ei ddatblygu

O ran y pwynt bwled cyntaf, mae'r gwaith rhynglywodraethol ar y farchnad fewnol yn mynd rhagddo ar wahân i'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Mae'r cysylltiadau â'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion y Fframweithiau Cyffredin.

O ran yr ail bwynt bwled, cyfeiraf y Pwyllgor at fy ateb i Argymhelliad 5. Mae'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin yn faes gwaith annibynnol sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac mae ar wahân i fathau eraill o gytundeb rhynglywodraethol.

Rhoddir diweddariad ar yr argymhelliad hwn cyn y toriad ar 30 Mawrth.

Goblygiadau ariannol: AMHERTHNASOL

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'JM', with a stylized flourish at the end.

Jeremy Miles AM

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister